

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Y Cyngor Ysgol

Wythnos yma, mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn frysus yn paratoi ar gyfer ei siop "Y Ffrwydriad Ffrwythau". Yn dilyn trafodaethau gyda disgyblion eu dosbarthiadau penderfynodd y Cyngor Ysgol bod angen hyrwyddo bwyta iach ym mlynnyddoedd 3,4,5 a 6. Felly aethant ati i sefydlu siop ffrwythau "Y Ffrwydriad Ffrwythau". Ddoe, agorodd drysau'r siop am y tro cyntaf a daeth dros 300 o blant i neuadd yr ysgol i fwynhau smwddi iachus, ysgytlath ffrwythau ac i ddewis ffrwyth o'r Twba Lwus. Bydd y Cyngor Ysgol nawr yn trafod beth i wneud gyda'r elw ac mae syniadau arbennig ganddynt am sut i ddatblygu'r ardaloedd allanol ym mhob dosbarth. Diolch i chi rhieni am eich cefnogaeth ac i'r disgyblion am eu brwdfrydedd.

### Continwmm Chwarae

Y tymor yma rydym wedi dechrau gwreiddio ein Continwmm Chwarae ar draws yr ysgol. Cafwyd cyflwyniad gwyb nos Fawrth ar ddarnau rhydd ac mae pob dosbarth yn yr ysgol wrthi yn sefydlu ardal darnau rhydd. Bwriad y Continwmm Chwarae yw datblygu chwilfrydedd, mentergarwch ac annibyniaeth ein disgyblion, gan sicrhau bod y sgiliau yma yn cael eu dyfnhau a'u cymhwyso'n drawsgwricwlaidd. Edrychwn ymlaen at arddangos yr ardaloedd yma yn ystod ein diwrnodau dathlu dysgu.

### Teithiau a gweithgareddau

Mae nifer o deithiau a gweithgareddau wedi eu trefnu gan y dosbarthiadau ar gyfer tymor yma. Gofynnwn yn garedig i bawb i dalu am y teithiau a'r gweithgareddau yma ar Parent Pay. Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch yn syth gyda'r ysgol fel ein bod yn gallu eich cefnogi.

## Calendr

Cyfarfod y  
GRhA  
yn "Y Nyth"  
Ysgol  
Treganna  
28/01/25

Bws Beic  
31/01/25

## Eisteddfod yr Urdd

Mae hi'n dymor Eisteddfod yr Urdd unwaith eto!

### Beth yw Eisteddfod yr Urdd?

Mae Eisteddfod yr Urdd yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion gystadlu mewn amryw o gystadlaethau megis unawdau, adrodd, cystadlaethau offerynnol a chystadlaethau grŵp.

### Mae 3 rownd yn Eisteddfod yr Urdd.

1. **Eisteddfod Cylch**, fydd eleni yn Ysgol Plasmawr ar ddydd Sadwrn yr 8fed o Fawrth. Yn yr Eisteddfod Cylch bydd y disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion clwstwr Plasmawr. Bydd yr enillwyr wedyn yn mynd trwy i'r rownd nesaf, sef yr Eisteddfod Sir.
2. **Eisteddfod Sir**, fydd eleni yn Undeb y Myfyrwyr Caerdydd ar ddydd Sadwrn y 5ed o Ebrill. Yn yr Eisteddfod Sir bydd y disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Bydd yr enillwyr wedyn yn mynd i'r rownd nesaf a'r rownd olaf, sef Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
3. **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd** fydd eleni ym Margam, yn ystod wythnos Sulgwyn, hanner tymor yr haf. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol bydd y disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion o Gymru gyfan.

### Ymaelodi gyda'r Urdd

Er mwyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd mae rhaid i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd. (Rhaid diweddarau aelodaeth bob blwyddyn).

Dyma linc i'r Porth ble fyddwch yn gallu ymaelodi eich plentyn. <https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/ymaelodi-dy-hundy-blant-neu-deulu-gydar-urdd/>

### Cystadlu yn yr Urdd (cystadlaethau unigol)

Yn unol â gweledigaeth yr ysgol, rydym am sicrhau fod pawb sydd am gystadlu yn yr Urdd yn cael y cyfle i wneud.

Fel ysgol, byddwn yn rhoi'r unawdau (canu unigol) a'r darnau llefaru (adrodd unigol) ar gyfrif Teams dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 6 dydd Gwener. Byddwn yn cynnwys copi o eiriau'r unawdau a'r llefaru a chlipiau sain er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ymarfer a dysgu'r darnau. Rydym yn annog y disgyblion i ddysgu'r unawd a'r darn llefaru fel gwaith cartref. Ond byddwn hefyd yn dysgu'r darnau llefaru a'r unawdau i bob disgybl yn yr ysgol.

Eleni am y tro cyntaf, ni fyddwn yn dewis disgyblion i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Cylch. Yn hytrach, rydym am roi cyfle i bawb sydd am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd i gystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Os fyddwch yn dymuno i'ch plentyn gystadlu yn yr Eisteddfod gofynnwn i chi fel rhieni i'w cofrestru ar y Porth, sef system gofrestru'r Urdd.

<https://www.urdd.cymru/index.php?cID=5115>

Mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn yr ysgol ac fe allwn ni eu cofrestru os nad oes mynediad gennych i'r Porth.

### Dyddiad cau

Dyddiad cau cofrestru disgyblion i gystadlu yn yr Eisteddfod, yw dydd Lun, y 17eg o Chwefror. Rhaid sicrhau eich bod wedi cofrestru eich plentyn i gystadlu cyn y dyddiad yma, neu raid sicrhau eich bod wedi gofyn i'r ysgol i gofrestru eich plentyn ar y Porth.

## Cystadlu yn yr Urdd (cystadlaethau grŵp)

Bydd disgyblion Bl 3,4,5 a 6 yn cael y cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau grŵp. Ni fyddwn yn cynnal clyweliadau eleni ar gyfer y cystadlaethau canlynol er mwyn rhoi cyfle i bawb. Ni fydd clyweliadau ar gyfer y Gân Actol, dawnsio aml gyfrwng, parti unsain (2 barti), parti deulais (2 barti) a'r parti llefaru (3 parti). Bydd pob disgybl o flwyddyn 6 sydd am gystadlu mewn cystadlaethau grŵp yn cael y cyfle i wneud.

Byddwn hefyd yn cystadlu yn y cystadlaethau canlynol – ymgom (3 grŵp), parti cerdd dant (1 grŵp), ensemble lleisiol (1 grŵp) a dawnsio gwerin bl 3 a 4 (2 grŵp). Bydd clyweliadau ar gyfer y cystadlaethau yma yn unig. Bydd mwy o wybodaeth am y cystadlaethau uchod yn cael eu rhannu gyda chi wythnos nesaf. Diolch i'r staff a phawb sydd wedi bod wrthi yn paratoli'r darnau yma ar Teams. Diolch hefyd i'r staff fydd yn hyfforddi'r disgyblion ar gyfer yr Eisteddfod.

## Y Nyth

Sesiwn i Rieni/Gofalwyr:

Edrychwn ymlaen at groesawu Dr Luke Ryan, Seicolegydd Addysg yr ysgol, i'r Nyth ar fore ddydd Gwener, Chwefror yr 21ain. Rhagor o fanylion i ddilyn.

Hefyd, i'ch atgoffa ...

Os ydych chi'n teimlo bod angen i chi siarad â rhywun, neu ofyn am gyngor, cofiwch fod croeso i chi alw heibio am sgwrs dros banded efo Mrs Rhiannydd Jones, Arweinydd Lles a'r Gymuned yr ysgol. Bydd unrhyw bryderon neu sylwadau'n cael eu delio â mewn modd sensitif, a bydd Mrs Jones yn gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw bryderon neu faterion sydd gennych.

Pryd? Bob prynhawn dydd Gwener (1.00yp-3.30yp)

Pwysig: Cysylltwch â Swyddfa'r ysgol i fwcio slot amser.

### Fforwm Rhieni

*\*Grŵp ar gyfer rhieni, cyn rhieni, gofalwyr, neiniau, a theidiau plant sydd wedi cael diagnosis Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses o dderbyn diagnosis (h.y. ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol).*

Byddwn yn cynnal dwy sesiwn yn ystod y tymor:

**Paned a Chlonc** - cyfle i rieni ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros banded

Ble? Y Nyth, Treganna

Pryd? Dydd Gwener, 14eg o Chwefror (9.00yb – 11.00yb)

**Cwrdd â'r Tim** – cyfle i gwrdd ag Elen Derrick, Athrawes Arbenigol o'r Tîm Cefnogi Awtistiaeth, ac i ddarganfod sut mae'r tîm yn cefnogi dysgwyr mewn ysgolion (mwy o wybodaeth i ddilyn)

Ble? Y Nyth, Treganna

Pryd? Dydd Gwener, 14eg o Fawrth (9.00yb – 10.00yb)

## Patrwm iaith

### Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos

Alla i...Alli di?

Cei/Cewch/Na chei/Na chewch

**Her**

Tybed ga i? Oes modd i mi? Ydy hi'n gyfleus?

### Testun trafod yr wythnos

Yr anrheg orau ges i erioed oedd...

### Cân yr wythnos

Yws Gwynedd- Bae

### Idiom yr wythnos

Crynu yn ei esgidiau

